

2017: Blwyddyn Chwedlau Cymru. Wales' Year of Legends.

Canllaw cam wrth gam i'ch busnes.
A step-by-step guide for your business.

#GwladGwlad
#FindYourEpic



Blwyddyn Chwedlau. Year of Legends.

Rydym am ddathlu blwyddyn o brofiadau chwedlonol ledled Cymru yn 2017. Gan adeiladu ar fomentwm Blwyddyn Antur, mae Blwyddyn Chwedlau yn rhoi cyfle i ni greu hunaniaeth wirioneddol unigryw i Gymru yn fyd-eang.

We want to celebrate a year of legendary experiences across Wales in 2017. Building on the momentum of Year of Adventure, the Year of Legends presents us with an opportunity to build a truly distinctive identity for Wales on the world stage.

2017 yw ein cyfle i arddangos diwylliant, treftadaeth a thirweddau cyfoethog Cymru. Mae'n gyfle i ddathlu cyfoeth o ddigwyddiadau ac eiconau o fyd chwaraeon a diwylliant, a sefyll allan ymhlith ein cystadleuwyr. Drwy wneud hynny, rydym am atgyfnerthu canfyddiadau cadarnhaol o'n gwlad, a sicrhau bod Cymru yn gyrchfan berthnasol, gyfoes, o ansawdd uchel yn y 21ain Ganrif.

Mae'n allweddol ein bod yn cael y cydbwysedd cywir: ni ddylem edrych yn ôl yn ystod 2017. Mae'n gyfle i ddod â'n treftadaeth unigryw ac amrywiol yn fyw fel na wnaed erioed o'r blaen, a hynny gan dorri tir newydd. Mae hefyd yn gyfle i greu a dathlu chwedlau newydd Cymru — personoliaethau, cynnyrch a digwyddiadau'r byd heddiw sy'n dod o Gymru, neu sy'n cael eu cyfoethogi o fod yma.

Rydym yn falch o'n gorffennol, wrth i ni edrych ymlaen at y dyfodol yn llawn hyder.

Mae Blwyddyn Chwedlau yn cyfuno'r hen â'r newydd, gan gydbblethu'r gorffennol â'r presennol. Mae'n golygu arddangos y Gymru go iawn mewn ffordd sy'n gyforiog o dalent a syniadau newydd. Mae'n golygu bod yn ddigamsyniol Gymreig ac yn eithriadol yn rhyngwladol.

Ond nid adrodd ein hanes yn unig a wnawn yn ystod Blwyddyn Chwedlau. Byddwn yn gwneud i bobl ymgolli yn ein stori wych. Byddwn yn creu profiadau chwedlonol i bawb. A dod o hyd i'r chwedl sy'n rhan o bob un ohonom.

2017 is our chance to showcase Wales' rich culture, heritage and landscapes. It's an opportunity to celebrate a wealth of sporting and cultural events and icons, and to stand apart from our competitors. In doing so, we want to reinforce positive perceptions of our country, and position Wales as a high-quality, relevant and contemporary 21C destination.


Getting the balance right is key: 2017 isn't about looking backwards. It's about bringing our unique and diverse cultural heritage to life like never before, with cutting-edge innovation. And it's also about creating and celebrating new Welsh legends — modern-day personalities, products and events that are made in Wales, or enriched by coming here.

We are proud of our past, as we look towards the future with confidence.

The Year of Legends is about old infused with new, past interweaving with the present. It's about showcasing the real Wales in a way that is alive with fresh talent and ideas. It's about being unmistakably Wales and internationally outstanding.

But the Year of Legends isn't simply about telling our tale. It's about immersing people in our epic story. It's about creating legendary experiences for everyone. And finding the legend within us all.

Gwybodaeth fewnol. Inside information.



Fforest, Ceredigion.

Felly beth sydd yn y canllaw hwn? Mae'n dweud sut y gallwch chi — eich busnes — fanteisio ar Flwyddyn Chwedlau. Ac mae'n berthnasol i bawb, o westai i lety gwely a brecwast, llety hunanarlwyo, atyniadau ymwelwyr a darparwyr gweithgareddau.

Yn gryno, dyma beth gaiff ei gynnig:

- Blwyddyn Chwedlau yn gryno
- Beth hoffem ei gyflawni
- Beth sy'n digwydd
- Cymerwch ran
- Adnabod eich marchnad
- Cyngor ymarferol
- Mae ansawdd yn cyfrif

Gall pawb gymryd rhan ym Mlwyddyn Chwedlau — eich blwyddyn chi ydyw nid ein blwyddyn ni, eich cyfle chi i wella eich busnes. Felly dyma'r amser i ddechrau arni.

So what's this guide about? it's about how you — your business — can benefit from the Year of Legends. And it applies across the board, from hotels to B&Bs and self-catering, visitor attractions to activity providers.

In broad terms, here's what you'll find:

- Year of Legends in summary
- What we'd like to achieve
- What's happening
- Get involved
- Know your market
- Practical advice
- Quality counts

Everyone can easily become involved in the Year of Legends — it's your year more than ours, your opportunity to increase business. So now's the time to get started.

Yn gryno. In summary.



Castell Caerffili / Caerphilly Castle.

Nid nod Blwyddyn Chwedlau yw bod Croeso Cymru yn marchnata Cymru i'r diwydiant — yn hytrach bydd Croeso Cymru yn gweithio gyda chi i roi Cymru ar y map.

Felly rydym am gydweithio â phartneriaid i greu profiadau eiconig, i ddathlu pobl, llefydd a chynnyrch chwedlonol ym mhob rhan o Gymru — profiadau sy'n ddigon mawr a mentrus i ddenu sylw, ac i ddenu ymwelwyr i Gymru. Ond rydym hefyd am ysbrydoli'r diwydiant cyfan i ddatblygu syniadau llai, mwy lleol sy'n gwella profiadau ein cwsmeriaid pan fyddant yma.

Bydd y flwyddyn yn canolbwyntio ar ddiwylliant a threftadaeth ond gall hefyd gwmpasu tirweddau, chwaraeon ac antur, bwyd a diod a menter — yn wir, gorau oll os bydd yn greadigol ac amrywiol.

The Year of Legends is not about Visit Wales marketing Wales for the industry — but about Visit Wales working with you to put Wales on the map.

For that reason we want to work together with partners to create iconic, experiences celebrating legendary people, places and products in all parts of Wales — experiences that are big and bold enough to attract attention, and visitors to Wales. But we also want to inspire the whole industry to develop smaller, more local ideas that enhance our customers' experiences when they are here.

The year will focus on culture and heritage but can also encompass landscapes, sport and adventure, food and drink and enterprise — in fact the more creative and hybrid the approach, the better.

Yn syml, rydym am wneud dau beth ar yr un pryd.

DOD Â'R GORFFENNOL YN FYW FEL NAS GWELWYD ERIOED O'R BLAEN.

2017, caiff hanes a diwylliant cyfoethog a nodedig Cymru, un o'n hasedau gorau, ei ail-ddychmygu, ei ailadrodd a'i ailddarganfod. Byddwn yn taflu goleuni newydd ar y straeon a roddodd ein hunaniaeth i ni, ac yn datgelu rhai newydd a fydd yn ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn bwrw golwg o'r newydd ar ein gorffennol, ac yn archwilio cydweithrediadau sy'n difyrru ac yn cyffroi.

DATHLU CHWEDLAU CYMRU YN Y DYFODOL.

Wedi'u hysbrydoli gan ein pobl a'n llefydd, yn dod i'r amlwg drwy gydol 2017 — mewn diwylliant, busnes a chwaraeon, yn rhyngwladol ac yn lleol. Talent newydd, syniadau newydd, straeon newydd — yn 2017 caiff chwedlau heddiw a chwedlau'r dyfodol eu meithrin a'u cefnogi.

In simple terms we want to do two things at once.

BRINGING THE PAST TO LIFE LIKE NEVER BEFORE.

In 2017 Wales' rich and distinctive history and culture, one of our greatest assets, will be reimagined, retold and rediscovered. We'll shed new light on the stories that made us who we are, and uncover new ones that will inspire future generations. We'll put our past in a new light, and explore collaborations that engage and excite.

CELEBRATE FUTURE WELSH LEGENDS.

Inspired by our people and places new legends will emerge throughout 2017 — in culture, business and sport, on the international stage and at local venues. New talent, new ideas, new stories — 2017 will be about nurturing and supporting today's legends and legends of the future.

Yn unol â gweledigaeth y brand, rydym am i bob prosiect, digwyddiad ac ymgyrch adlewyrchu pob un o'n tri gwerth craidd, sef:

Bod yn ddilys—
bod yn ystyrlon, o safon uchel, gyda naws cryf a nodedig am le.

Bod yn greadigol—
bod yn arloesol, mentrus a hynod gyfoes.

Bod yn fyw—
bod yn hygyrch, gan gynnwys a throchi.

Dylai pob gweithgaredd fodloni egwyddorion brand Cymru a cheisio:

- Codi ein statws
- Rhyfeddu ac ysbrydoli
- Newid canfyddiadau
- Gwneud pethau da
- Bod yn ddigamsyniol Gymreig

In-line with the brand vision, we want all projects, events and campaigns to reflect all three core values:

Authentic—
meaningful, high-quality with a strong and distinctive sense of place.

Creative—
innovative, cutting-edge and highly-contemporary.

Alive—
accessible, inclusive and immersive.

All activity should meet the principles of the Wales brand and seek to:

- Elevate our status
- Surprise and inspire
- Change perceptions
- Do good things
- Be unmistakably Wales

Beth hoffem ei gyflawni. What we'd like to achieve.

Ynys Sgomer, Sir Benfro /
Skomer Island, Pembrokeshire.

Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddull gweithredu tair blynedd er mwyn hyrwyddo Cymru yn seiliedig ar dair thema — 'Antur' yn 2016, 'Chwedlau' yn 2017 a'r 'Môr' yn 2018.

Mae'r themâu hyn yn adlewyrchu ein cryfderau, yn feysydd lle mae gennym fantais gystadleuol ac yn rhai y mae galw amdanynt yn y farchnad.

In 2015, the Welsh Government announced a three-year approach for promoting Wales based on a trio of themes — 'Adventure' in 2016, 'Legends' in 2017 and 'The Sea' in 2018.

These play to our strengths by focusing on areas where we have a competitive advantage and for which there's market demand.

Gyda'n gilydd rydym am:

Sefydlu Cymru fel gwlad chwedlau — pobl, llefydd, cynnyrch.

Rhoi hwb yn benodol i broffil Cymru fel un o brif gyrchfannau'r DU ar gyfer:

- treftadaeth gyfoethog a nodedig a phrofiadau diwylliannol,
- digwyddiadau chwaraeon a gwyliau diwylliannol o fri byd-eang,
- yr awyr agored, adeiladu ar Flwyddyn Antur.

Ysbrydoli ymwelwyr i ystyried Cymru ac i ymweld â Chymru nawr — yn enwedig twristiaid newydd, sy'n chwilio am flas a diwylliant lleol.

Datgelu a chreu chwedlau Cymreig eiconig — fel y Brenin Arthur.

Creu naws am falchder a hunaniaeth o'r newydd yng Nghymru.

Cyflwyno profiad ystyrion sy'n parchu, yn diogelu ac yn cynnal ein diwylliant.

Cynyddu cyfran Cymru o'r farchnad twristiaeth ddomestig a rhyngwladol.

Ein nod yw ysbrydoli £320 miliwn o wariant ychwanegol gan ddefnyddwyr yng Nghymru y flwyddyn nesaf — a £7m ychwanegol o fusnes y fasnach deithio i Gymru gan ein 100 o brif weithredwyr.

Together we want to:

Establish Wales as the land of legends — peoples, places, products.

Specifically boost Wales' profile as a leading UK destination for:

- rich and distinctive heritage and cultural experiences,
- sporting events and internationally-renowned cultural festivals,
- the great outdoors, building on the Year of Adventure.

Inspire visitors to consider and visit Wales now — especially new, high-yield tourists.

Grow Wales' market share of domestic and international tourism.

Uncover and create iconic Welsh legends, such as King Arthur.

Create a sense of renewed pride and identity within Wales.

Deliver a meaningful experience that respects, protects and sustains our culture.

Our goal is to inspire £320 million of additional consumer spend in Wales next year — and an additional £7m of travel trade business to Wales from our top 100 operators.

#GwladGwlad
#FindYourEpic



Felly, beth sy'n digwydd? So what's happening?

Bydd 2017 yn rhoi llwyfan i bob math o atyniadau, digwyddiadau a gweithgareddau. O ganmlwyddiant marwolaeth Hedd Wyn yn yr Ysgwrn, i lety dros dro mewn lleoliadau chwedlonol. Byddwn yn ailadrodd rhai o'n straeon drwy lwyfannau cyffrous, cyfoes a diwylliannol, fel Sioe Gerdd Tiger Bay a gaiff ei llwyfannu yng Nghaerdydd.

Bydd y rhaglen yn cynnwys ffyrdd ffres, arloesol o ddarganfod ein diwylliant a'n treftadaeth.

Bydd yn arddangos chwedlau'r gorffennol — ochr yn ochr â chwedlau cyfoes fel Gareth Bale a Doctor Who. A bydd yn gwneud hynny'n greadigol — gan ddefnyddio dychymyg a thalent.

Caiff digwyddiadau chwaraeon gwych a digwyddiadau celfyddydol rhyngwladol eu cynnal — a byddwn yn rhoi llwyfan i gynnyrch Cymreig chwedlonol... brandiau mor amrywiol â'r Gwyll, Hiut Denim a Halen Môn.

Caiff rhai gweithgareddau eu trefnu neu eu cefnogi gan Croeso Cymru, ac eraill gennych chi, ein partneriaid diwydiant. Mae'r rhaglen lawn yn newid yn barhaus felly dilynwch ni @CroesoCymruBus i gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.

2017 will showcase all kinds of attractions, events, and activities. From the centenary of Hedd Wyn at the Ysgwrn, to pop up accommodation at legendary locations. We'll be re-telling some of our stories through exciting contemporary, cultural platforms such as the Tiger Bay Musical to be staged in Cardiff.

The programme will include fresh, innovative ways of discovering our culture and heritage.

It will showcase legends of the past — alongside contemporary legends such as Gareth Bale and Doctor Who. And it will do so creatively — with imagination and talent.

There will be great sporting occasions and international arts events — and we'll showcase legendary Welsh products... brands as wide-ranging as Hinterland, Hiut Denim and Halen Môn.

Some activities will be organised or supported by Visit Wales, others by you, our industry partners. The full programme is continually changing but follow us @VisitWalesBiz for regular updates.

Mae Croeso Cymru eisoes wedi cynorthwyo amrywiaeth eang o bartneriaid i gyflwyno gweithgareddau Blwyddyn Chwedlau.

Ymhlith y prif brosiectau a'r pileri sy'n tanseilio'r flwyddyn mae mae:

Cestyll Byw — rhaglen Cadw o ddigwyddiadau a gwyliau cyfoes ym mhob cwr o Gymru — yn cynnwys gweithiau celf newydd yn un o gestyll eiconig Cymru.

Gŵyl y Gwyliau — dathliad o sîn gwyliau bywiog Cymru, y mae llawer ohonynt wedi'u hysbrydoli gan y chwedlau a'r tirweddau o'u cwmpas, yn cynnwys Gŵyl y Gelli 2017, Gŵyl y Dyn Gwyrdd a Gŵyl Rhif 6.

Ymgyrchoedd, llwybrau a digwyddiadau i hyrwyddo Cymru fel gwlad adrodd straeon o'r Brenin Arthur i'r Gwyl i Doctor Who.

Dathlu canmlwyddiant marwolaeth Hedd Wyn yng nghyd-destun byd-eang y Rhyfel Byd Cyntaf.

Visit Wales has already supported a wide-range of partners to deliver Year of Legends activity.

Flagship projects and key pillars that underpin the year include:

Castles Alive — Led by Cadw, a programme of contemporary events and festivals in all parts of Wales, including new flagship arts installations at Wales' iconic castles.

Festival of Festivals — a celebration of Wales' vibrant festival scene, many of which are inspired by the legends and landscapes around them, including Hay 2017, Green Man and Festival No 6.

Campaigns, trails and events to promote Wales as a nation of storytelling from King Arthur to Hinterland to Doctor Who.

Celebrating Hedd Wyn centenary in a global context of WW1.

Chwedlau celf y byd yn ein Hamgueddfa Genedlaethol — arddangosfeydd newydd a gwobr Artes Mundi.

Ymgyrch barhaus i hyrwyddo Anturiaethau epig ledled y wlad — sy'n rhoi cyfle i bob un ohonom fod yn bwysig am y diwrnod.

Haf o Chwaraeon epig — yn cychwyn gyda Gêm Derfynol Cynghrair y Pencampwyr yng Nghaerdydd, digwyddiad chwaraeon mwyaf y byd yn 2017.

Mapio digidol a gweithgareddau lleol i hyrwyddo tirweddau chwedlonol ledled Cymru — yn frith o straeon sy'n ychwanegu dimensiwn newydd i'ch profiad o'n gwlad — mewn llefydd fel Beddgelert a Llyn-y-Fan-Fach.

Cynnyrch Cymreig chwedlonol — dangos y brandiau a'r cynnyrch sy'n symbol o'r gorau o Gymru, ein traddodiadau a'n treftadaeth: ond gydag ymagwedd ffres.

Rhwydwaith newydd o lwybrau cerdded, marchogaeth a gyrru cenedlaethol Cymru — yn cysylltu cestyll, atyniadau a'r golygfeydd gorau yn y wlad.

Ymgyrchoedd, teithiau cerdded a digwyddiadau i ddathlu chwedlau bwyd lleol Cymru — cynhwysion, ryseitiau a chogyddion sydd wedi'u hysbrydoli gan y dirwedd ac sy'n rhoi blas unigryw i'ch profiad o Gymru.

World art legends at our National Museum — new exhibitions and the Artes Mundi prize.

The continued promotion of epic Adventures across the country — which provide opportunities for all of us to become legends for the day.

An epic Summer of Sports — kicking off with the UEFA Champions League Final in Cardiff, the biggest sporting event in the world in 2017.

Digital mapping and local activity to promote legendary landscapes across Wales — layered in stories that add a new dimension to your experience of our nation — in places such as Beddgelert and Llyn-y-Fan-Fach.

Legendary Wales products — a showcase of the brands and products that symbolise the best of Wales, our traditions and heritage: but with a fresh twist.

A new network of national walking, riding and driving routes of Wales — drawing together castles to attractions to the best views in the country.

Campaigns, trails and events to celebrate Wales' local food legends — ingredients, recipes, chefs that are inspired by the landscape and bring a unique flavour to your experience of Wales.

Bydd Croeso Cymru hefyd yn canolbwyntio ar ein holl ymdrechion marchnata yn y cyfnod cyn ac yn ystod 2017 ar thema Blwyddyn Chwedlau, gan dargedu ein hymdrechion yng Nghymru, ledled y DU, yn yr Almaen ac UDA.

Caiff yr ymgyrch farchnata ei lansio yn ystod yr hydref — gyda'r gweithgaredd wedi'i anelu at gyfryngau a dylanwadwyr yn y DU / yn rhyngwladol; gweithgaredd ym Marchnad Teithio'r Byd; a lansio ymgyrch yr Almaen.

Yn dilyn hyn, bydd ymgyrch amsianel fawr yn y flwyddyn newydd — yn cynnwys marchnata ar y teledu, yn y wasg ac yn y cyfryngau digidol.

Visit Wales will also focus all our marketing efforts in the lead-up to and during 2017 on the Year of Legends theme, targeting our efforts within Wales, across the UK, in Germany and the USA.

The marketing campaign will launch in the autumn — with activity aimed at the UK / international media and influencers; activity at World Travel Market; and the launch of the Germany campaign.

This will be followed by a major multi-channel campaign in the new year — including television, print and digital marketing.

Cymerwch ran. Get involved.



Roald Dahl's City of the Unexpected, Caerdydd / Cardiff.

Mae llawer o syniadau a mentrau yn cyd-fynd â thema Blwyddyn Chwedlau — a dyma eich cyfle chi i gymryd rhan. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu syniadau sy'n ddigon mawr i ddenu ymwelwyr newydd — ond mae hefyd yn bwysig meddwl am y pethau bychain a fydd yn gwella profiad eich cwsmeriaid ar ôl iddynt gyrraedd. Gallai syniadau mawr a bach gynnwys:

Mapiau, gwybodaeth a digwyddiadau i hyrwyddo **teithiau cerdded chwedlonol** ar hyd a lled Cymru fel Llwybr Arfordir Cymru (y cyntaf o'i fath yn y byd), Llwybr Glyndŵr, Llwybr Clawdd Offa.

Profiadau bwyd chwedlonol — rhoi'r cyfle i'ch ymwelwyr brofi'r cynnyrch lleol gorau, fel Medd Cymreig.

Sesiynau adrodd straeon — trefnwch sesiynau adrodd straeon o amgylch coelcerth i'ch gwsteion; neu darparwch silff lyfrau o straeon lleol i'ch gwsteion.

Chwedlau lleol — cyflwynwch becyn o wyliau thematig, sgyrsiau a dathliadau yn eich cymuned i ennyn cyffro a diddordeb.

Digwyddiadau unigryw, dros dro a gweithgareddau yn eich cymuned neu mewn lleoliad anhygoel — nid oes raid i'r rhain fod yn fawr; dim ond yn wreiddiol a gwahanol.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i greu a chefnogi profiadau ledled Cymru.

Lots of ideas and initiatives lend themselves to the Year of Legends theme — and this is your opportunity to get involved. We are focused on developing ideas that are big enough to draw in new visitors — but it's also important to think of the little things, that will enhance your customers' experience once they are here. Some big and smaller-scale ideas might include:

Maps, information and events to promote **legendary walks** across Wales such as the Wales Coast Path (first of its kind in the world), Glyndŵr's Way, Offa's Dyke Path.

Legendary food experiences — giving your visitors the chance to sample the best local produce, such as Welsh Mead.

Storytelling sessions — organise campfire storytelling sessions for your guests; or provide a bookshelf of local stories for your guests.

Local legends — package up thematic festivals, talks and celebrations in your community to give a sense of a buzz and talkability.

Pop-up, exclusive events and activities in your community or in an amazing location — these don't have to be big; just original and different.

We look forward to working with you to create and support experiences across Wales.

Adnabod eich marchnad.

Bydd ein Blwyddyn Chwedlau o ddiddordeb arbennig i farchnadoedd penodol yng Nghymru, ledled y DU, yn yr Almaen ac yn UDA. Canolbwyntiwch ar y rhain i gael y budd gorau posibl.

ANTURWYR DIWYLLIANNOL

Pwy: Cyplau

Oedran: 40+ yn bennaf

Ffeithiau allweddol: Dosbarth canol ac ar y lefel incwm uchaf yn bennaf. Maent yn chwilio am amrywiaeth dda o atyniadau hanesyddol, trefi a dinasoedd diddorol, llety o ansawdd da a golygfeydd hardd. Mae ganddynt ddiddordeb mewn bywyd a diwylliant lleol, ac yn mwynhau darganfod profiadau a llefydd newydd yn y DU.

ANTURWYR GOLYGFYDD

Pwy: Cyplau

Oedran: 40+ yn bennaf

Ffeithiau allweddol: Maent yn chwilio am dirweddau hardd, fflora a ffawna. Maent yn fwy tebygol o fod yn teithio o amgylch — yn chwilio am fargeinion llety da. Mae'n well ganddynt deithio'n annibynnol a mynd ar wyliau i lefydd diarffordd.

ANTURWYR TEULUOL

Pwy: Teithwyr gyda phlant o dan 15 oed; dosbarth canol yn bennaf

Oedran: Mae'r mwyafrif helaeth o dan 50 oed

Ffeithiau allweddol: Teithwyr anturus sy'n hoffi dysgu am y llefydd y maent yn ymweld â nhw a ffordd o fyw a diwylliant lleol. Maent yn chwilio am lefydd sy'n cynnig digon o weithgareddau i blant ym mhob tywydd; mae'n bwysig iawn eu bod yn cael profiadau newydd. Maent yn debygol o fynd i leoliadau gwahanol ar gyfer pob gwyliau.

ANTURWYR EGNÏOL

Pwy: O gartrefi heb blant; dosbarth canol yn bennaf

Oedran: Mae'r mwyafrif helaeth o dan 35 oed

Ffeithiau allweddol: Maent yn mwynhau darganfod profiadau a llefydd newydd yn y DU a mynd i rywle gwahanol bob tro. Mae Cymru fel lle chwarae yn yr awyr agored yn bwysig iawn iddynt — dyma'r bobl fwyaf egnïol ym marchnad darged Cymru. Maent yn mynd ar nifer o wyliau a gwyliau byr.

A pheidiwch ag anghofio am y farchnad amlwg sy'n agos at gartref...

POBL CYMRU

Mae'r marchnadoedd targed uchod yn cynnwys elfen gref iawn o fewn Cymru hefyd sydd â'r nod o gefnogi Blwyddyn Chwedlau a chymryd rhan ynddi, gan ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc.

Know your market.

Our Year of Legends will be of special interest to certain markets in Wales, across the UK, in Germany and in the USA. Focus on these for maximum benefit.

CULTURAL EXPLORERS

Who: Couples

Age: Mainly 40+

Key facts: Mostly middle class and in the higher income bracket. Looking for a good range of historical attractions, interesting towns and cities, good quality accommodation and beautiful scenery. Interested in the local way of life and culture, and enjoy discovering new experiences and places in the UK.

SCENIC EXPLORERS

Who: Couples

Age: Mainly 40+

Key facts: Looking for beautiful landscapes, flora and fauna. More likely to be touring — looking for good accommodation deals. Prefer independent travel and off-the-beaten-track holidays.

FAMILY EXPLORERS

Who: Travellers with children under the age of 15; mostly middle class

Age: Vast majority are below 50

Key facts: Adventurous travellers who like to learn about the places they visit and local way of life and culture. Looking for places with lots of things to do for children in all weathers; providing them with new experiences is very important. Likely to go to different locations for each holiday.

ACTIVE EXPLORERS

Who: From households with no children; mostly middle class

Age: Vast majority are below 35

Key facts: Enjoy discovering new experiences and places in the UK and going somewhere different each time. Wales as an outdoor playground is very important to them — they are the most active of Wales' target market segments. Take lots holidays and short breaks.

And let's not forget the obvious market close to home...

THE PEOPLE OF WALES

The above target markets also include a very strong in-Wales element aimed at supporting and becoming involved in the Year of Legends, with a focus on children and young people.



- Gate 2

I WILL.

#GwladGwlad
#FindYourEpic

Mynò amdani. Let's get practical.

Rydym am i bawb chwarae eu rhan wrth ddod â Blwyddyn Chwedlau yn fyw.

Mae Blwyddyn Chwedlau yn ddathliad ac yn gyfle. Byddwn yn cymryd rhan drwy dynnu sylw at y prosiectau a'r syniadau mawr sy'n bodoli — ond megis dechrau yw hynny. Mae pwrpas i'r thema gyffrous hon, sef bod yn ddolen ddefnyddiol i chi wrth farchnata eich cyrchfan neu eich busnes unigol eich hun.

We want everyone to take part in bringing the Year of Legends to life.

The Year of Legends is both a celebration and an opportunity. We'll do our bit by drawing attention to the big projects and ideas out there — but that's just the start. This exciting theme is there to do a job, as a useful hook for you in your own marketing as a destination or individual business.

Felly sut y gallwch wneud i Flwyddyn Chwedlau weithio i chi? Beth ddylech chi ei wneud nesaf? Sut y gallwch gymryd rhan? Dyma rai awgrymiadau a syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd.

So how can you make the Year of Legends work for you? What should you do next? How can you get involved? Here are some suggestions and ideas to get you going.

BETH YW'R STORI?

Lledaenwch y gair. Cysylltwch â chwsmeriaid ar eich rhestr cysylltiadau i roi gwybod iddynt bod 2017 yn Flwyddyn Chwedlau yma, gan amlinellu rhai o'r pethau a fydd yn digwydd.

Gwnewch eich gwaith cartref. Dechreuwch gasglu gwybodaeth ar bopeth chwedlonol yn eich ardal — pobl, llefydd, digwyddiadau, gweithgareddau. Dylech sicrhau eich bod chi a'ch staff yn ymwybodol o rai o'r prif ddigwyddiadau sydd wedi'u trefnu ar gyfer Blwyddyn Chwedlau.

Darllenwch. Edrychwch ar ein canllaw cynnwys newydd ar gyfer Blwyddyn Chwedlau — mae'n llawn straeon a syniadau. Gallwch ei ddarllen yma: businesswales.gov.wales/zones/tourism

Ceisiwch gael profiad personol. Ymwelwch â chastell lleol. Blaswch gynnyrch gan bencampwr bwyd. Dysgwch fwy am eich tirweddau chwedlonol eich hun. Yna dywedwch wrth eich gwsteion amdanynt, yn seiliedig ar brofiad personol.

Rhannwch eich gwybodaeth. Ewch ati i wella cynnwys eich gwefan gyda deunydd ar thema Blwyddyn Chwedlau. Ewch ati i greu teithlyfrau enghreifftiol i westeion a chadwch ddigon o wybodaeth leol wrth law (lluniwch becyn croeso arbennig sy'n cynnwys gwybodaeth am bob math o brofiadau chwedlonol neu lyfr lloffion yn llawn tafenni ac erthyglau yn nodi pethau i'w gweld a'u gwneud yn yr ardal).

WHAT'S THE STORY?

Spread the word. Contact customers on your mailing list to let them know that 2017 is our Year of Legends, outlining some of things that will be happening.

Do your homework. Start collecting information on all things legendary in your area — people, places, events, activities. Make sure that you and your staff are aware of some of the key events scheduled for the Year of Legends.

Read on. Take a look at our new Year of Legends content guide — it's full of stories and ideas. You can view it at businesswales.gov.wales/zones/tourism

Get first-hand experience. Visit a local castle. Taste produce from a food champion. Find out more about your own legendary landscapes. Then tell your guests all about them, based on first-hand experience.

Share your knowledge. Improve the content of your website with Year of Legends themed material. Create sample itineraries for guests and keep plenty of local information on hand (put together a dedicated welcome pack with information on all kinds of legendary experiences or a scrapbook packed with leaflets and cuttings detailing things to see and do in the area).

GWEITHIO'N DDEALLUS

Cyfuno profiadau. Mae Cymru yn llawn profiadau chwedlonol, hen a newydd. Bydd llawer o ymwelwyr yn awyddus i gyfuno profiadau (ymweld â chestyll a gwyliau cerddorol unigryw, chwilio am lefydd sy'n gysylltiedig â'r Brenin Arthur a Doctor Who, gan fwynhau digwyddiadau chwaraeon, celfyddydol a diwylliannol). Ceisiwch eu tywys ar y llwybr cywir drwy gynnig neu awgrymu nifer o weithgareddau gwahanol ar gyfer diwrnod neu benwythnos.

Cydweithio. Cydweithredwch â busnesau lleol eraill i roi'r profiadau cyfunol gorau posibl i'ch gwesteion. Dylech ystyried busnesau eraill fel rhai i gydweithio â nhw, nid fel rhai i gystadlu yn eich erbyn. Ewch ati i hyrwyddo ar y cyd, trefnwch gyfraddau gostyngol arbennig a chyfleoedd archebu munud olaf.

Crëwch eich chwedlau eich hun. Nid o'r gorffennol yn unig y daw chwedlau yn 2017. Crëwch eich ymgyrchoedd a'ch deunydd hyrwyddo eich hun ar thema chwedlau a dywedwch wrth eich gwesteion am ein calendr digwyddiadau.

Byddwch yn hyblyg. Gellir ailgyflwyno llawer o weithgareddau a digwyddiadau sy'n bodoli eisoes yn hawdd er mwyn cyd-fynd â thema Blwyddyn Chwedlau.

SMART WORKING

Mix and match. Wales is full of legendary experiences, old and new. Many visitors will want to mix and match, combining one with another (visiting castles and boutique music festivals, seeking out places linked with King Arthur and Doctor Who, enjoying sporting events and arty, cultural gatherings). Point then in the right direction by offering or suggesting a number of different activities in a day or weekend break.

Work together. Collaborate with other local businesses to give your guests the best possible joined-up experiences. Think of other businesses as colleagues, not competitors. Cross promote, arrange special discounted rates and last-minute booking opportunities.

Create your own legends. Legends in 2017 aren't just about the past. Create your own, run special legend-themed campaigns and promotions and tell your guests about our calendar of events.

Be adaptable. Many existing activities and events can quite easily be re-presented to fit with the Year of Legends theme.

Mawr a bach. Gweithiwch gyda busnesau eraill yn eich ardal i gynnal eich digwyddiadau chwedlonol bach eich hun i gyd-daro â rhai o'r dyddiadau mawr yng nghalendr Croeso Cymru (fel Gêm Derfynol Cynghrair y Pencampwyr yn Stadiwm Principality ar 3 Mehefin, neu unrhyw un o'n gwyliau mawr dros yr haf fel Gŵyl y Gelli a'r Dyn Gwyrdd).

Rhowch groeso i gerddwyr a beicwyr. Mae Cymru yn llawn llwybrau gwych i gerddwyr, seiclwyr a beicwyr mynydd (edrychwch ar yr hyn sy'n digwydd mewn llefydd fel Parc Coedwig Coed y Brenin). Felly, ymunwch â chynlluniau 'Croeso i Gerddwyr a Beicwyr' Croeso Cymru drwy ddarparu cyfleusterau defnyddiol fel manau storio beiciau, ardaloedd sychu ac ati.

Pediwch ag anghofio'r plant. Os yw plant yn rhan o'ch marchnad darged, ymunwch â gweithredwyr tebyg a threfnwch ddiwrnodau allan llawn hwyl i grwpiau — mae plant yn mwynhau cwmni ei gilydd. Lluniwch 'fap trysor' lleol yn seiliedig ar gymeriadau a llefydd chwedlonol

Mae ansawdd yn cyfrif. Manteisiwch ar gynlluniau graddio ac achredu ar gyfer darparwyr llety, atyniadau a gweithgareddau.

Ewch amdani, byddwch yn arloesol. Os ydych yn fusnes sy'n ystyried ychwanegu profiad neu gynnyrch newydd i'ch arlwy y gallwch ei gysylltu â Blwyddyn Chwedlau, gweithredwch nawr. Rhowch eich cynlluniau ar waith heddiw er mwyn sicrhau y byddwch yn barod ar gyfer 2107.

Little and large. Work with other businesses in your area to put on your own mini-legendary events to coincide with some of the big dates in the Visit Wales calendar (like the UEFA Champions League Final at the Principality Stadium on 3 June, or any of our many major summer festivals like Hay and the Green Man).

Welcome walkers and cyclists. Wales is blessed with epic routes for walkers, cyclists and mountain bikers (just take a look at what's going on in places like the Coed y Brenin Forest Park). So join Visit Wales' 'Walkers and Cyclists Are Welcome' schemes by providing helpful facilities like bike storage, drying areas and so on.

Don't forget the kids. If children are part of your target market hook up with other similar operators and arrange fun group days out — children enjoy each other's company. Put together a local 'treasure map' based on legendary characters, places

Quality counts. Make the most of grading and accreditation schemes for accommodation, attractions and activity providers

Seize the day, be innovative. If you're a business thinking about adding a new experience or product to your offering that you can link to the Year of Legends, act now. Put your plans into action today so you'll be up and running for 2017.



Castell Caerdydd a Stadiwm y Principality /
Cardiff Castle and Principality Stadium.

A CHOFIWCH...

Cadwch eich traed ar y ddaear. Mae ymwelwyr heddiw yn chwilio am ddilysrwydd a gonestrwydd. Os yw'n bosibl, dylai eich dull gweithredu ar gyfer Blwyddyn Chwedlau fod yn seiliedig ar brofiadau lleol, gwirioneddol, personol ac unigryw na ellir eu darparu yn unman arall. A sicrhewch eu bod yn gynhwysol ac yn rhyngweithiol ac y gall pobl ymgolli ynddynt — mae pobl am wneud mwy na sefyll a syllu.

Mae'r ysgrifen ar y mur. Mae beth y mae pobl eraill yn ei ddweud amdanoch yn cael mwy o effaith a hygredd na hysbysebu syml. Gweithiwch gyda ni i gyflwyno newyddiadurwyr a blogwyr teithio i'ch busnes.

Sefyllfa lle y bydd pawb ar eu hennill. Cynigiwch wobwr mewn cystadleuaeth i'w defnyddio yn un o'n hymgyrchoedd hyrwyddo.

AND DON'T FORGET...

Keep it real. Today's visitors are looking for authenticity and honesty. If possible, base your approach to the Year of Legends on local, genuine, personal and distinctive experiences that can't be provided elsewhere. And make them involving, immersive and interactive — people don't want simply to stand and stare.

The write stuff. What other people say about you has more impact and credibility than straightforward advertising. Work with us to bring travel journalists and bloggers to your business.

A win-win situation. Offer a competition prize for use in one of our promotional campaigns.

Sicrhewch eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am bopeth sy'n digwydd yn 2017 a hyrwyddwch eich gweithgareddau Blwyddyn Chwedlau eich hun.

Stay up-to-date with everything that's happening in 2017 and promote your own Year of Legends activities.

Bunch of Grapes, Pontypridd.

CADWCH MEWN CYSYLLTIAD

Law yn llaw. Ychwanegwch restr o ddarparwyr gweithgareddau lleol at eich gwefan eich hun.

Mynnwch gael sylw drwy wefan Croeso Cymru. Ychwanegwch neu diweddarwch eich gwybodaeth ar beiriant chwilio ein gwefan, sy'n cwmpasu llety, gweithgareddau, atyniadau a digwyddiadau. Am ragor o wybodaeth, ewch i visitwales.com/working-with-us

Cysylltwch â ni. Rhwch wybod i ni am eich cynnyrch a'ch digwyddiadau Blwyddyn Chwedlau drwy e-bostio blwyddynchwedlau@cymru.gsi.gov.uk

Dilynwch ni. Dilynwch gyfrif Twitter Croeso Cymru ar gyfer y diwydiant, sef @CroesoCymruBus i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd.

Rhannwch. Rhannwch eich cynnwys, eich lluniau a'ch ffilmiau ar y cyfryngau cymdeithasol a defnyddiwch yr hashnod #GwladGwlad.

Dilynwch ein cyfrifon ar gyfer defnyddwyr ar y cyfryngau cymdeithasol i gael newyddion Blwyddyn Chwedlau arbennig ac anogwch eich ymwelwyr i wneud hynny hefyd.

Facebook [facebook.com/visitwales](https://www.facebook.com/visitwales)
Instagram [@visitwales](https://www.instagram.com/visitwales)
Twitter [@croesocymru](https://twitter.com/croesocymru)
YouTube [youtube.com/user/visitwales](https://www.youtube.com/user/visitwales)

KEEP IN TOUCH

Link up. Add a list of local activity providers to your own website.

Get noticed via the Visit Wales website. Add or update your information on our site searches, which cover accommodation, activities, attractions and events. For more information go to visitwales.com/working-with-us

Stay in touch. Let us know about your Year of Legends products and events by emailing yearoflegends@wales.gsi.gov.uk

Follow us. Follow the Visit Wales industry Twitter feed @VisitWalesBiz to stay informed about what's going on.

Share. Share your content, pictures and films on social media tag all posts with #FindYourEpic.

Follow our consumer social media feeds for special Year of Legends news and encourage your visitors to do the same.

Facebook [facebook.com/visitwales](https://www.facebook.com/visitwales)
Instagram [@visitwales](https://www.instagram.com/visitwales)
Twitter [@visitwales](https://twitter.com/visitwales)
YouTube [youtube.com/user/visitwales](https://www.youtube.com/user/visitwales)

Mae ansawdd yn cyfrif. Quality counts.



Surf Snowdonia, Dolgarrog.

Rhaid i bopeth a wnawn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynnig profiad o ansawdd sy'n ddiogel, yn foesebol ac yn gynaliadwy, gwerthoedd allweddol sy'n cyd-fynd â disgwyliadau teithwyr heddiw.

Mae achrediad a system raddio Croeso Cymru yn rhoi tawelwch meddwl, gan alluogi cwsmeriaid i archebu'n hyderus. Bydd y cynlluniau hefyd yn rhoi cyfleoedd i chi weithio gyda ni, yn cynnwys cael eich rhestru ar wefannau, gallu defnyddio logos, ymweliadau gan y cyfryngau a gweithgareddau marchnata eraill ar y cyd.

Am ragor o wybodaeth ewch i:
businesswales.gov.wales/cy/zones/tourism

Neu cysylltwch â'r tîm Sicrhau Ansawdd:
0845 010 8020
blwyddynchedlau@cymru.gsi.gov.uk

Darparwyr gweithgareddau

Os hoffech weithio gyda Croeso Cymru, bydd angen i chi hunanardystio eich manylion achredu. Ewch i visitwales.com/wato i gael rhagor o fanylion ac i gwblhau ffurflen hunanachredu.

Everything we do must reflect our commitment to providing a quality experience that's safe, ethical and sustainable, key values that chime with the expectations of today's travellers.

Visit Wales accreditation and grading create reassurance, allowing customers to book in confidence. The schemes will also give you access to opportunities for working with us, including website listings, the use of logos, media visits and other joint marketing activities.

For more information go to:
businesswales.gov.wales/zones/tourism

Or contact the Quality Assurance team:
0845 010 8020
yearoflegends@wales.gsi.gov.uk

Activity providers

If you want to work with Visit Wales you will need to self-certify your accreditation details. Please visit visitwales.com/wato for further details and to complete the self-accreditation form.

Gweithio mewn Partneriaeth. Working in Partnership.

Gorsaf Bad Achub Tyddewi, Sir Benfro /
St Davids Lifeboat Station, Pembrokeshire.

Rydym yn croesawu'r cyfleoedd y mae Blwyddyn Chwedlau yn eu cynnig i weithio gyda busnesau twristiaeth. Rydym eisoes wedi amlinellu rhai o'r mesurau ymarferol y gallwch eu cymryd.

Ymysg y mesurau eraill mae dod â phrosiectau a syniadau yn iyw drwy gynlluniau cyllido amrywiol. Rydym yn chwilio am ddigwyddiadau a phrofiadau llai niferus, mwy, mwy eiconig ac unigryw, gyda chyfoeth o atyniadau ar lawr gwlad, drwy gydol y flwyddyn ac ym mhob cwr o'r wlad yn eu hategu.

I gael rhagor o wybodaeth am ein ffrydiau cyllido, cysylltwch â'ch rheolwr ymgysylltu rhanbarthol ar blwyddynchwedlau@cymru.gsi.gov.uk

We welcome the opportunities the Year of Legends brings for working with tourism businesses. We've already outlined some of the practical measures you can take.

Other measures include bringing projects and ideas to life through various funding schemes. We're looking for fewer, bigger, better iconic, brand-defining events and experiences, backed up by a wealth of supporting attractions on the ground, throughout the year and in all parts of the country.

For more information on our funding streams contact your regional engagement manager on yearoflegends@wales.gsi.gov.uk

Dyma rai enghreifftiau o brosiectau rydym eisoes yn eu cyllido ar lefel ranbarthol ledled Cymru:

Y GOGLEDD

Dan arweiniad Twristiaeth Gogledd Cymru, bydd ymgyrch farchnata 'chwedlonol' integredig yn sicrhau bod y Gogledd yn gyrchfan o ragoriaeth, yn atgyfnerthu canfyddiadau cadarnhaol ac yn ysbrydoli ymwelwyr. Bydd yr ymgyrch yn cynnwys datblygu cynnwys a deunydd marchnata arloesol newydd i gael eu hyrwyddo mewn nifer o ganolfannau dinesig wedi'u targedu yn cynnwys, Lerpwl, Manceinion, Swydd Gaer, Swydd Efrog a Dulyn.

Y CANOLBARTH

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gweithio ar y cyd â chyrchfannau eraill, Casgliad y Werin Cymru, CBHC, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Llanbedr Pont Steffan), Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Prifysgol Aberystwyth, a Cynnal y Cardi i gefnogi datblygiad parhaus Naws am Le yn y Canolbarth.

Bydd pecyn arloesol yn cynnwys llawer o gyrchfannau o gynnyrch dehongli yn seiliedig ar chwedlau (teithlyfrau digidol ac wedi'u hargraffu, datblygu digidol ar gyfer cynnyrch) yn cael ei ddatblygu gyda chyfleuster dehongli, yn seiliedig ar dechnoleg iBeacon, i wella profiad ymwelwyr yn y Canolbarth.

Here are some examples of projects we're already funding on a regional level across Wales:

NORTH WALES

Led by North Wales Tourism an integrated 'legendary' marketing campaign will position North Wales as a destination of excellence and reinforcing positive perceptions and inspiring visitors. The campaign will include the development of new innovative content and marketing material to be promoted at a number of targeted city centres including, Liverpool, Manchester, Cheshire, Yorkshire and Dublin.

MID WALES

Ceredigion County Council will be working in collaboration with other destinations, The People's Collection Wales, RCAHMW, University of Wales Trinity Saint David's (Lampeter), The National Library of Wales, Aberystwyth University, and Cynnal y Cardi to support the ongoing development of Sense of Place in Mid Wales.

An innovative destination-wide package of legend-based interpretive product (digital and print itineraries, product digital development) will be developed with interpretation, based on iBeacon technology, to enhance the visitor experience in Mid Wales.

Y DE-ORLLEWIN

Dan arweiniad Cyngor Sir Caerfyrddin a gyda chefnogaeth pob partner cyrchfan rhanbarthol, mae prosiect mawr ar waith sy'n cwmpasu pum gweithgaredd:

- ymgyrch ar-lein a chynnwys digidol newydd i gefnogi ymgyrch Blwyddyn Chwedlau.
- ymgyrch gerdded chwedlonol 3D Rhyngweithiol.
- ymgyrch Cestyll a Gerddi'r De-orllewin yn cynnwys ymweliadau ymgyfarwyddo i drefnwyr lleol, cwmnïau teithio, tywyswyr a chwmnïau mordeithiau.
- ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus sy'n targedu newyddiadurwyr o'r DU a rhyngwladol o bob rhan o'r cyfryngau am gyfnod o 12 mis
- ymgyrch waddol Blwyddyn Antur i barhau i godi ymwybyddiaeth a gwerthiannau yn seiliedig ar weithgarwch antur rhanbarthol.

Y DE-DDWYRAIN

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn arwain prosiect sy'n cynnwys dehongliad treftadaeth, datblygu cynnwys ac ymgysylltiad cymunedol yn yr ardal. Mae'r gwaith hefyd yn cynnwys datblygu cynnyrch antur a threftadaeth, rhaglen cysylltiadau cyhoeddus barhaus, gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol a datblygu gwefannau.

SOUTH WEST WALES

Led by Carmarthenshire County Council and supported by all regional destination partners, a major project is underway encompassing five activities:

- an online campaign and new digital content to support to the Year of Legends campaign.
- a 3D Interactive legendary walking campaign.
- a Castle and Gardens of South West Wales campaign including familiarisation visits will for ground handlers, tour operators, tour guides and cruise operators.
- a PR campaign targeting international and UK journalists from all media outlets for a 12 month period.
- a Year of Adventure legacy campaign to continue building awareness and sales based on regional adventure activity.

SOUTH EAST WALES

Torfaen County Borough Council is leading a project that includes heritage interpretation, content development and community engagement in the area. The work also includes adventure and heritage product development a continued programme of PR, social media and website development activity.

Ac ar ddiwedd y flwyddyn... And at the end of the year...

Rydym yn cynllunio i sicrhau y caiff Blwyddyn Chwedlau waddol barhaus. Byddwn wedi:

Datblygu hunaniaeth Cymru yn hyderus.

Denu ymwelwyr newydd i Gymru.

Cyfoethogi profiad ein cwsmeriaid presennol.

Ysbrydoli cynnyrch ac atyniadau newydd ar hyd a lled Cymru.

We're making plans for our Year of Legends to have a lasting legacy. We'll have:

Pushed Wales' identity forwards with confidence.

Attracted new visitors to Wales.

Enriched the experience of our existing customers.

Inspired new products and attractions across Wales.

Nodiadau. Notes.

Caiff **2017: Blwyddyn Chwedlau Cymru** ei gyhoeddi gan Croeso Cymru, is-adran Twristiaeth a Marchnata Llywodraeth Cymru 2016.

Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru, Canolfan QED
Y Brif Rodfa, Ystad Ddiwydiannol Treforest,
Treforest, Pontypridd CF37 5YR.

Ffotograffiaeth:
Hawlfraint y Goron (2016) Croeso Cymru.

2017: Wales' Year of Legends is published by Visit Wales, the Tourism and Marketing division of the Welsh Government © 2016.

Visit Wales
Welsh Government, QED Centre
Main Avenue, Treforest Industrial Estate
Treforest, Pontypridd CF37 5YR.

Photography:
Crown copyright (2016) Visit Wales.

Clawr / Cover:
Parc Cenedlaethol Eryri /
Snowdonia National Park.

croesocymru.com
visitwales.com

